

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**  
**CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**  
**Tîm Comisiynu**

**ADRODDIAD MONITRO CONTRACT**

---

**Enw/cyfeiriad y darparwr:** Cartref Preswyl Springfield

**Dyddiad/amser yr ymweliad:** Dydd Iau, 11 Gorffennaf, 9.30am–12.30pm

**Swyddog(ion) ymweld:** Andrea Crahart, Swyddog Monitro Contractau, CBS Caerffili

**Yn bresennol:** Nicola Mullins, Rheolwr Cofrestredig  
Mr. John Cole, Unigolyn Cyfrifol

**1. Cefndir**

- 1.1 Cartref preswyl ar gyfer oedolion iau ag anabledd dysgu yw Springfield. Mae'r gwasanaeth yn eiddo i'r Perchennog/Unigolyn Cyfrifol, Mr John Coles, a'r Rheolwr Cofrestredig yw Nicola Mullins, sydd wedi'i chofrestru gyda Cymorth Gofal Cymru (rheoleiddiwr y gweithlu cymorth cymdeithasol).
- 1.2 Tŷ mawr iawn ar wahân yw Cartref Preswyl Springfield, a saif ar diroedd deniadol a gynhelir yn dda yn y Gilfach. Mae'r cartref wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i ddarparu llety a chymorth ar gyfer 5 o bobl. Ar adeg yr ymweliad, roedd 5 o bobl yn byw yn y cartref: 4 a ariennir gan CBS Caerffili ac 1 a ariennir gan Gyngor Dinas Caerdydd.
- 1.3 Fel yn y blynyddoedd diweddar, ni chafwyd unrhyw gwynion nac atgyfeiriadau diogelu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- 1.4 Nododd adroddiad arolygu mwyaf diweddar Arolygiaeth Gofal Cymru (dyddiedig Mehefin 2019) nifer o argymhellion ar gyfer gwella. Cafodd y rhain eu trafod yn ystod yr ymweliad.
- 1.5 Gan ddibynnu ar y canfyddiadau yn yr adroddiad, rhoddir i'r darparwr gamau unioni a chamau datblygu i'w cymryd. Camau unioni yw'r rheiny y mae'n rhaid eu cymryd (fel y'u llywodraethir gan ddeddfwriaeth) ac argymhellion o ran arfer da yw camau datblygu.

**2. Argymhellion blaenorol**

**Camau unioni**

- 2.1 Ychwanegu blwch ar gyfer y 'mis' at y ffurflen gais er mwyn nodi a chwestiynu unrhyw fylchau heb esboniad yn yr hanes cyflogaeth. Amserlen: cyn pen 3 mis. **Heb ei gyflawni.**

- 2.2 Cadw dogfennau recriwtio staff yn brydlon ac fel mater o drefn yn ffeiliau'r aelodau o'r staff. Cynnwys mynegai ffeil ac adrannau i'w gwneud yn haws dod o hyd i wybodaeth. **Amserlen: Cyn pen 3 mis ac yn barhaus. Roedd cynnydd wedi cael ei wneud gyda'r cam hwn erbyn diwedd y cyfnod monitro. (Rheoliad 35, y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol.)**
- 2.3 Geirdaon staff i gael eu gwirio gan y rheolwr fel rhan o'r broses recriwtio. **Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus. (Rheoliad 35, y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol.) I'w wirio yn ystod ymweliadau monitro yn y dyfodol.**
- 2.4 Cynlluniau personol (cynlluniau gwasanaeth) i gael eu hadolygu bob 3 mis ac nid bob 6 mis, yn unol â'r ddeddf newydd, Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. **Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus. (Rheoliad 16, y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol.) Wedi'i gyflawni.**
- 2.5 Asesiadau risg i gael eu diweddarau, eu hadolygu'n rheolaidd a'u llofnodi gan yr holl staff. **Amserlen: Cyn pen 3 mis ac yn barhaus. (Rheoliad 16, y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol.) Cyflawnwyd yn rhannol, ac i'w wirio yn ystod ymweliadau monitro yn y dyfodol.**

### Datblygu

- 2.6 Llunio canllaw ar gyfer unigolion nad yw hwn ganddynt eisoes mewn perthynas ag e.e. ei hoff bethau a'i gas bethau, ysgogiadau sy'n arwain at ymddygiadau a sut i reoli'r rhain ac ati. **Amserlen: Cyn pen 3 mis. Wedi'i gyflawni.**
- 2.7 Polisiâu/gweithdrefnau (anorfodol) i gael eu diweddarau a'u hadolygu yn barhaus. **Amserlen: Yn barhaus. I'w wirio yn ystod ymweliadau monitro yn y dyfodol.**
- 2.8 Ail-edrych ar y polisi cwyno er mwyn canfod a yw'r amser a roddir i ymateb i achwynydd yn ddigonol/yn diwallu anghenion y gwasanaeth. **Amserlen: Cyn pen 2 fis. Wedi'i gyflawni. (Y polisi wedi'i newid i ymateb cyn pen 72 awr gyda'r nod o ddatrys unrhyw gŵyn cyn pen 7 diwrnod gwaith.)**

### 3. Unigolyn cyfrifol

- 3.1 Cafodd y gwasanaeth ei ail-gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Hydref 2018. Mae'n ofynnol i'r Unigolyn Cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth lunio adroddiadau chwarterol er mwyn darparu gwybodaeth am berfformiad ac ansawdd y gwasanaeth. Edrychwyd ar adroddiadau diweddar a ddangosodd fod gwybodaeth wedi cael ei chasglu ar gyfer 3 chwarter olaf y flwyddyn.
- 3.2 Roedd yn amlwg bod Datganiad o Ddiben y cartref wedi cael ei ddiweddarau yn ddiweddar. Mae'n ofynnol i'r ddogfen hon gael ei diweddarau bob blwyddyn, neu'n amlach os oes newidiadau mae angen eu cynnwys.
- 3.3 Edrychwyd ar bolisiâu a gweithdrefnau'r cartref o'r blaen er mwyn sicrhau bod y polisiâu allweddol/gorfodol wedi'u cynnwys ac yn gyfredol. Mae disgwyl y caiff y

rhain eu hadolygu bob blwyddyn, neu'n amlach os oes newidiadau mae angen eu gwneud.

- 3.4 Cadarnhaodd yr Unigolyn Cyfrifol mai'r cynllun wrth gefn, pe na bai ef na'r Rheolwr Cofrestredig ar gael, yw y byddai uwch weithwyr gofal yn rhedeg y gwasanaeth dros dro.

#### **4.0 Archwilio ffeiliau a dogfennau**

- 4.1 Edrychwyd ar ffeil unigolyn er mwyn canfod a yw'r wybodaeth yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn gynhwysfawr o ran manylion. Roedd yn amlwg y bu llawer o welliant ers yr ymweliadau blaenorol. Roedd Cynllun Personol (Cynllun Gwasanaeth) yr unigolyn yn cynnwys llawer mwy o fanylion nag o'r blaen e.e. torrwyd y tasgau i lawr yn gamau manwl – 'bydd y staff yn rhoi cadach imi ymolchi, ond bydd angen i'r staff fy helpu i ymolchi a gwisgo gan na allaf gyrraedd fy nghefn ac ati', 'Gallaf frwsio fy nannedd fy hun ond mae arnaf angen help gan y staff i frwsio'r rhai yn y cefn'. Roedd y Cynllun Personol hefyd yn cynnwys hoff bethau a chas bethau'r unigolyn, a phethau sy'n ysgogi ymddygiad heriol, er mwyn rhoi arweiniad i'r aelod o'r staff ac i gynorthwyo'r unigolyn.
- 4.2 Roedd y Cynllun Personol wedi cael ei lofnodi gan yr unigolyn sy'n cael y gofal/cymorth, y gweithiwr allweddol a'r Rheolwr Cofrestredig.
- 4.3 Mae'r darparwr yn ymwybodol o'r ffaith bod angen i Gynlluniau Personol ac Aseidiadau Risg addas gael eu hadolygu bob 3 mis er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol. Er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn deall ac yn ymwybodol bod y wybodaeth hon wedi cael ei diweddarau, anogir y staff i lofnodi'r newidiadau'n rheolaidd.
- 4.4 Roedd yn amlwg bod apwyntiadau meddygol wedi cael eu cadw, e.e. apwyntiadau i archwilio dannedd, adolygiadau gyda'r meddyg ac ati.

#### **4.1 Adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid**

- 4.1.1 Erbyn hyn disgwylir i adborth Sicrhau Ansawdd gael ei gasglu bob 6 mis. Roedd yn amlwg bod yr Unigolyn Cyfrifol wedi cynnal arolwg yn ddiweddar, gan wahodd defnyddwyr y gwasanaeth, staff, teuluoedd a rhanddeiliaid i roi adborth a chafwyd dadansoddiad o'r adborth.

#### **4.2 Hyfforddiant**

- 4.2.1 Roedd yn amlwg o fatrics hyfforddiant y cartref fod amrywiaeth o hyfforddiant ar gael i'r staff, a bod hwn yn gyfredol, ar wahân i hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddementia. Mae staff hefyd wedi achub ar gyfleoedd i ddilyn cyrsiau anorfodol fel diogelwch tân, iechyd a diogelwch, awtistiaeth ac epilepsi.
- 4.2.2 Yn ystod y flwyddyn, trefnwyd i'r holl staff gael hyfforddiant y Pasbort Codi a Chario. Mae rhai wedi'i gael ac eraill i fod i'w gael yn y dyfodol agos. Roedd angen hyn er mwyn diwallu anghenion un o'r unigolion y gofelir amdano.

- 4.2.3 Mae'r Rheolwr yn ymwybodol o'r rhaglen sefydlu ddiwygiedig i'r staff (Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan), a'i gofynion, yn ogystal â'r angen i ofalyddion gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Ebrill 2022. Mae gan yr holl staff presennol gymhwyster FfCCh lefel 2 neu 3 mewn Gofal Cymdeithasol ac felly byddant yn gallu cael 'pasbort' trwy'r broses gofrestru. Mae gan y Rheolwr Cofrestredig gymhwyster FfCCh lefel 5.
- 4.2.4 Defnyddir amrywiaeth o adnoddau hyfforddiant er mwyn dilyn cyrsiau, h.y. Tîm Datblygu Gweithlu Caerffili/Blaenau Gwent, e-ddysgu a Boots.

### **4.3 Staffio**

- 4.3.1 Ni fu angen i'r Rheolwr Cofrestredig recriwtio unrhyw aelodau ychwanegol o'r staff ers y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2018. Felly nid oedd modd gwirio'r gwelliannau a nodwyd yn y gwiriadau blaenorol ar ffeiliau staff. Roedd yn amlwg yn ystod yr ymweliad monitro diwethaf fod y dogfennau recriwtio/mynegai ffeil ac adrannau oedd ar goll wedi cael eu hychwanegu at ffeiliau'r staff erbyn diwedd yr ymweliad.

### **4.4 Rheoli arian y preswylwyr**

- 4.4.1 Edrychwyd ar gofnodion ariannol un o'r unigolion a gynorthwyir. Roedd yn amlwg bod cofnodion o drafodion wedi'u cynnwys a bod 2 lofnod wedi cael eu cofnodi ar gyfer pob trafodyn. Yn ogystal â chael derbynebaw, roedd cyfeiriadau atynt yn y cofnodion o drafodion.

### **4.5 Diogelwch Tân**

- 4.5.1 Rhoddwyd gwybod i'r Swyddog Monitro na fu unrhyw ddamweiniau yn ystod y 12 mis diwethaf.
- 4.5.2 Roedd yr Asesiad Diogelwch Tân mwyaf diweddar wedi cael ei gwblhau gan yr Unigolyn Cyfrifol ym mis Ionawr 2019. Ymddengys na chafodd unrhyw argymhellion eu nodi ar y pryd.
- 4.5.3 Roedd y staff a'r unigolion a gynorthwyir wedi cymryd rhan mewn ymarferion tân rheolaidd hyd yma eleni. Anogwyd y Rheolwr Cofrestredig i nodi enwau'r unigolion hefyd, er mwyn gwybod pwy oedd wedi cymryd rhan mewn ymarfer ac ar bwy yr oedd angen hyn yn barhaus.
- 4.5.4 Roedd Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng ar gael i'r holl unigolion yn y cartref, ac roeddent yn gyfredol. Roedd y rhain yn y ffeil Diogelwch Tân, ac argymhellwyd iddynt gael eu ffeilio yn ffeil gofal yr unigolyn hefyd.

### **4.6 Amgylchedd y Cartref**

- 4.6.1 Mae pobl yn cael budd o lety mawr gydag ystafelloedd helaeth. Roedd y lolfa a'r ystafell fwyta yr edrychwyd arnynt yn ystod yr ymweliad yn lân ac yn daclus, ac yn

cael eu cynnal yn dda. Hefyd, saif y cartref mewn tiroedd helaeth, gyda gerddi mawr a gynhelir yn dda o'i amgylch.

- 4.6.2 Nid oes gan y cartref ystafell ar wahân i'r unigolion/staff ysmegu ynddi.
- 4.6.3 Mae gan y cartref lifft mewnol a ddefnyddir ar gyfer pobl mae arnynt ei angen i symud rhwng y lloriau.
- 4.6.4 Nid oes system teledu cylch cyfyng ar waith, ond mae larwm diogelwch y tu allan i'r adeilad er mwyn rhoi gwybod am unrhyw ymwelwyr annisgwyl.
- 4.6.5 Maes o law bydd ystafell wlyb newydd yn cael ei gosod mewn un o'r ystafelloedd presennol ar y llawr gwaelod. Mae angen hyn er mwyn diwallu anghenion un o'r unigolion y gofelir amdano.

## 5. Camau unioni / datblygu

### Unioni

- 5.1 Trefnu hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddementia i aelodau o'r staff nad ydynt wedi cael hyfforddiant diweddar ers rhai blynyddoedd. **Amserlen: Cyn pen 3 mis ac yn barhaus.**
- 5.2 Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng ar gyfer pob unigolyn i gael ei ffeilio yn ei ffeil gofal (wedi'i ffeilio yn y ffeil Diogelwch Tân hefyd). **Amserlen: Cyn pen 1 mis.**

### Datblygu

- 5.3 Staff i lofnodi pan gaiff newidiadau/adolygiadau eu gwneud i'r Cynlluniau Personol/Asesiadau Risg. **Amserlen: Cyn pen 1 mis ac yn barhaus.**

## 6. Casgliad

- 6.1 Mae Cartref Preswyl Springfield yn parhau i ddarparu amgylchedd croesawgar ar gyfer unigolion, staff ac ymwelwyr.
- 6.2 Yn ystod yr ymweliad, aethpwyd â phobl allan i'r gymuned i wneud gwahanol weithgareddau, ac roeddent yn edrych ymlaen at hyn.
- 6.3 Mae tîm o staff sefydlog ac ymroddedig yn y cartref o hyd, sy'n sicrhau sefydlogrwydd a chysondeb i'r unigolion sy'n byw yno.
- 6.4 Cafwyd llawer o welliant o ran sicrhau bod y Cynlluniau Personol yn rhoi mwy o fanylion am y person a'r cymorth mae ei angen. Mae'r rhain hefyd yn darparu gwybodaeth fel hoff bethau a chas bethau'r person, pethau sy'n ysgogi ymddygiadau ac ati.
- 6.5 Hoffai'r Swyddog Monitro Contractau ddiolch i'r Rheolwr a'i thîm am eu hamser a'u croeso yn ystod yr ymweliad monitro.

**Awdur:** Andrea Crahart,  
**Swydd:** Swyddog Monitro Contractau  
**Dyddiad:** Gorffennaf 2019

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael trwy safle rhyngrwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau papur o'r adroddiad ar gael hefyd i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd os ydynt yn gofyn i'w gweld.